OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 3439 (Cy. 47)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *17 Rhagfyr 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Rhagfyr 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4), 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol(**1**) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddo i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1999 a byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 1999.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2000, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1, yn lle'r fformwla "(A × £39.50) + (B × 0.00087)" y rhoddir y fformwla "(A × £39.90) + (B × 0.00078)";

(b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.999" y rhoddir "1.005";

(c) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 y rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**3**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003 a 1998/2962.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*Dafydd Elis Thomas*

17 Rhagfyr 1999

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN

"ATODLEN 4

Erthygl 2

FFIGURAU POBLOGAETH OEDOLION

| *Ardal awdurdod bilio* | *Ffigur a ragnodwyd* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,700 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 101,200 |
| Caerffili | 127,500 |
| Sir Gaerfyrddin | 132,900 |
| Caerdydd | 243,600 |
| Ceredigion | 56,800 |
| Conwy | 88,900 |
| Sir Ddinbych | 70,500 |
| Sir y Fflint | 113,400 |
| Gwynedd | 91,700 |
| Ynys Môn | 50,200 |
| Merthyr Tudful | 42,400 |
| Sir Fynwy | 67,200 |
| Castell-nedd Port Talbot | 107,300 |
| Casnewydd | 104,900 |
| Sir Benfro | 87,400 |
| Powys | 98,700 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 183,900 |
| Abertawe | 179,400 |
| Tor-faen | 68,300 |
| Bro Morgannwg | 92,000 |
| Wrecsam | 96,300" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol

Cymru a chynhwysir rheolau i gyfrifo'r cyfraniadau hynny yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheolau hynny drwy roi fformwla newydd ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1 (didyniadau o'r swm gros), lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros) ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).